

At: Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 20 Mai 2022

Rhif Union: 01824 712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 30 MAI 2022 am 2.00 pm yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

### 1 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw eitem i'w thrafod yn y cyfarfod hwn.

## CAIS I'W YSTYRIED -

### 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO - THE GLANGLASFOR, 1 GLANGLASFOR, Y RHYL, SIR DDINBYCH LL18 1RP (Tudalennau 5 - 62)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo a gyflwynwyd yn unol ag Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003 (mae amlinelliad o'r cais a'r papurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y weithdrefn i'w dilyn gan yr Is-Bwyllgor os gwelwch yn dda (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

## **MEMBERSHIP**

### **Y Cynghorwyr**

Hugh Irving  
Barry Mellor

Arwel Roberts

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

## Is - Bwyllgor Trwyddedu

### Trefniadau gwrandawriad arolwg S.51 Deddf Trwyddedu 2003

Cam	Disgrifiad
1.	Cadeirydd yr Is - Bwyllgor Trwyddedu yn agor y gwrandawriad arolwg. Croesawu pawb. Cyflwyno cydweithiwr ar yr Is-bwyllgorau a swyddogion.
2.	Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno cais.
3.	Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i gyflwyno'r cais.
4.	Cadeirydd yn gwahodd (os oes yn bresennol) unrhyw Awdurdod cyfrifol arall i roi sylwadau.
5.	Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod cyfrifol sy'n bresennol.
6.	Cadeirydd yn gwahodd eraill i roi sylwadau
7.	Cadeirydd yn gwahodd dalwyr Trwyddedau adeilad i roi sylwadau.
8.	Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r daliwr Trwyddedu adeilad ac eraill ac egluro unrhyw bwynt hefo'r ymgeisydd.
9.	Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i roi datganiad terfynol.
10.	Bydd Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn encilio i ystyried eu penderfyniad hefo clerc y gwrandawid ac ymgynghorydd cyfreithiol.
11.	Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd i fynegi eu penderfyniad, a'u rhesymau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Is-bwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	30 Mai 2022
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk
<b>TESTUN:</b>	Cais i adolygu trwydded eiddo o dan Adran 51 y Ddeddf Trwyddedu 2003: <b>The Glanglasfor, 1 Glanglasfor, y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 1RP</b>

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 Deddf Trwyddedu 2003.

Cyflwynwyd y cais gan Mr Aaron Haggas, Rheolwr Trwyddedu'r Heddlu ar ran Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â The Glanglasfor, 1 Glanglasfor, y Rhyl, LL18 1RP.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Dyma gais i adolygu trwydded eiddo presennol. Gall awdurdod cyfrifol neu barti sydd â diddordeb alw am adolygu trwydded ond rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal troseddu ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus, ac
- diogelu plant rhag niwed.

- 2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, (ii) Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac (iii) y gyfraith gyffredinol.

- 2.3 Gan weithredu yn rhinwedd yr Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

- 2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgrisiwn

mewn unrhyw achos am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol yn unig, a dylid rhoi rheswm/rhesymau am unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd oddi wrth y Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

### **3. ARGYMHELLION**

#### **3.1 Penderfyniad yr Is-bwyllgor**

Rhaid i'r Is-bwyllgor, gan roi sylw i'r sail am adolygu, ynghyd ag unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaed, gymryd pa gamau (isod) bynnag y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.

Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau'r Drwydded;
- eithrio gweithgaredd trwyddedig o'r drwydded;
- cael gwared ar y goruchwylwr eiddo dynodedig;
- gwahardd y Drwydded am gyfnod o hyd at 3 mis;
- dirymu'r drwydded

### **4. GWYBODAETH GEFNDIR**

#### **4.1 Mae canllawiau a gyflwynwyd o dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003, yn datgan:**

*“Mae'r achosion a nodir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn cynrychioli amddiffyniad allweddol ar gyfer cymuned lle mae problemau mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl cymeradwyo neu amrywio trwydded eiddo.*

*Ar unrhyw gam, yn dilyn cymeradwyo trwydded eiddo, gall awdurdod cyfrifol, neu barti sydd â diddordeb, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu trwydded yn sgil materion sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu”*

#### **4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais i adolygu trwydded eiddo a gedwir gan Mr Stephen Butler.**

#### **4.3 Y Goruchwylwr Eiddo Dynodedig presennol yn yr eiddo yw Mr Stephen Butler.**

#### **4.4 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol gan gynnwys yr atodlen weithredu gyfredol yn Atodiad A yr adroddiad hwn.**

4.4.1 Y sail dros adolygu, a nodir yn y cais, yw:

*“o ganlyniad i fethiant yr eiddo i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, yn benodol Atal Trosedd ac Anhrefn, Atal Niwsans Cyhoeddus a Diogelu Plant rhag Niwed. Yn ogystal, codwyd pryderon fod yr eiddo yn torri oriau'r drwydded eiddo.*

*Er gwaethaf ymdrechion gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, mae'r eiddo wedi methu ag ymgysylltu ar sail barhaus.*

*Mae gan Heddlu Gogledd Cymru ddiffyg hyder yn y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig, y Deiliad Trwydded Eiddo a Rheolaeth yr Eiddo i reoli'r eiddo yn gyfrifol.”*

4.4.2 Mae manylion llawn y sail i adolygu wedi cael ei ddarparu gan Heddlu Gogledd Cymru ac ar gael i'w archwilio yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

4.4.3 Mae'r cais i adolygu yn rhoi manylion am ddigwyddiad a gymerodd le ar 3 Mawrth 2022 am 00:55, gyda grŵp o unigolion dan ddylanwad oedd wedi eu cloi yn yr eiddo, yn amrywio o 15 i 21 oed, gyda dau ohonynt wedi cael eu hadrodd o fod ar goll. Cyflwynodd Mrs. Butler, gwraig y Deiliad Trwydded Eiddo, ei hun fel yr unigolyn cyfrifol, fodd bynnag roedd yn amlwg i'r Swyddogion oedd yn bresennol nad oedd ganddi reolaeth dros y grŵp o unigolion ac nid oedd unrhyw gofnod fod prawf gwiriadau oed wedi digwydd. Nodwyd hefyd fod nifer o ddiodydd bron yn llawn gan awgrymu gwasanaeth tu hwnt i oriau'r drwydded bresennol.

4.4.4 O ganlyniad i ddifrifoldeb y digwyddiad a gymerodd le ar 3 Mawrth 2022, gwahoddodd Heddlu Gogledd Cymru Mr Butler i mewn i drafod y pryderon a godwyd, yn benodol o ran torri amodau'r drwydded eiddo; unigolion wedi meddwi yn yr eiddo; methiant i reoli cwsmeriaid, polisi gwirio oedran; plant wedi meddwi yn yr eiddo a'r eiddo 'cloi mewn' gyda phlant.

4.4.5 Ni fynychodd Mr Butler y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Mawrth 2022 a ni fynychodd cyfarfod dilynol a drefnwyd ar gyfer 21 Mawrth 2022. Dylai'r Aelodau hefyd fod yn ymwybodol nad dyma'r tro cyntaf i Mr Butler fethu ag ymgysylltu â Swyddogion, gan na fynychodd cyfarfod ar 8 Hydref i drafod pryderon mewn perthynas â Covid.

4.4.6 Yn ogystal â hynny, yn dilyn protocol gorfodi ar y cyd yn Natganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo trwyddedig, roedd yr eiddo ynghlwm cyfarfod ymgysylltu Lefel 1 am ganiatáu cwsmeriaid i feddwi ar yr eiddo a methiant i ddarparu teledu cylch caeëdig i Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn ymosodiad difrifol ar yr eiddo.

- 4.4.7 Yn sgil y digwyddiadau hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi datgan nad oes gan yr eiddo ddigon o fesurau mewn lle i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, a gan nad yw'r eiddo wedi ymgysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru na Swyddogion y Cyngor, maent yn gofyn i Aelodau ystyried nifer o fesurau ychwanegol, fel y nodir yn Atodiad C.
- 4.5 Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion  
Pan mae cais y cael ei gyflwyno ar gyfer adolygu trwydded eiddo, rhaid i gopi llawn o'r cais (ac atodiadau) gael eu darparu i'r awdurdodau cyfrifol a deiliad y drwydded eiddo.
- 4.6 Hysbysiad Cyhoeddus  
Os yw cais i adolygu wedi cael ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, mae'n ofynnol o dan y Ddeddf fod hysbysiad am y cais yn cael ei arddangos, ar yr eiddo dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am leiafrif o 28 diwrnod olynol.
- 4.7 Sylwadau Perthnasol  
Nid oes unrhyw sylwadau pellach wedi'u derbyn gan Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau o'r cyhoedd mewn ymateb i'r cais i Adolygu.
- 4.8 Materion sy'n berthnasol i'r cais  
Wrth ystyried y cais, dylai'r Aelodau roi ystyriaeth i'r canlynol: -
- Sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau perchnogion, gweithwyr, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.
- 4.9 Canllawiau / Amcanion Trwyddedu
- 4.9.1 Mae'r sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.
- 4.9.2 Cyfeirir yr Is-bwyllgor mewn perthynas â'r cais hwn at y Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:
- Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.6**
  - Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.15 i 2.21**
  - Diogelu plant rhag niwed - **Adran 2.22 i 2.32**
- 4.10 Datganiad Polisi Trwyddedu - Y Broses Adolygu
- 4.10.1 Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:



- Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**
- Diogelu plant rhag niwed - **Adran 3.4**

4.11 Atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r Cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfiawnder naturiol y gyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

## 5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol er mwyn cynorthwyo'r aelodau yn eu hystyriaethau.

5.2 Dylai aelodau nodi, unwaith y bydd camau, fel y manylir arnynt yn Adran 3 yr adroddiad hwn wedi'u cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, nid yw penderfyniad yr Awdurdod yn cael effaith ar unwaith. Bydd unrhyw benderfyniad ond yn cael effaith pan fydd y cyfnod i wneud apêl wedi dod i ben neu, os yw apêl yn cael ei gyflwyno, neu pan fydd apêl yn cael ei ddiystyru.

5.3 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir yr Aelodau na ddylent wyro oddi wrth y Polisi oni fydd tystiolaeth/rheswm da dros wneud hynny.

5.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu o'r angen i ddarparu rhesymau dros eu penderfyniad.

5.6 Atgoffir yr aelodau bod angen atodi unrhyw amod y cytunwyd ei bod yn berthnasol ac yn gymesur i'r Drwydded Eiddo.

5.7 Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol wrth ystyried yr amodau diwygiedig i'r Drwydded Eiddo, bydd angen tynnu unrhyw amod presennol o natur debyg.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag